



Mae Addysg yng Nghymru yn newid.

Hoffem gael eich
help wrth i ni newid.

**Ymgynghoriad ar gyfer
Pobl Ifanc a Chymunedau**



Cyflwyniad

Mae addysg yng Nghymru yn newid.

Efallai eich bod wedi sylwi ar ychydig o'r newid yn barod, ond mae'n mynd i gael hyd yn oed mwy o effaith ar y plant a'r bobl ifanc fydd yn mynd i'r ysgol ar eich ôl chi.

Mae'r cyfan yn rhan o **wledigaeth** Llywodraeth Cymru i wella dysgu: rhywbeth mae eich athrawon, eich cyflogwyr yn y dyfodol a gwleidyddion i gyd yn cytuno sy'n rhaid ei wneud.

Gobeithio eich bod chi'n cytuno hefyd, a hoffen ni i chi ddweud wrthon ni a ydyn ni ar y trywydd iawn.

Mae dros 26,000 o athrawon yng Nghymru, sy'n dysgu miliynau o ffeithiau a ffigyrau, mewn llwyth o wahanol bynciau, i dros hanner miliwn o blant a phobl ifanc mewn dros 1,500 o ysgolion a gynhelir. Mae athrawon hefyd yn helpu dysgwyr i ddatblygu sgiliau bywyd ac yn eu helpu nhw i baratoi ar gyfer eu dyfodol y tu hwnt i'r ysgol.

RYDYN NI EISIAU'R SYSTEM ADDYSG ORAU BOSIBL YNG NGHYMRU



Er mwyn newid yn llwyddiannus, mae cyfres o ddigwyddiadau. Mae'n rhaid inni:

- **Wybod pam fod angen newid rhywbeth**
- **Deall yr hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni**
- **Cytuno ar ba newidiadau wnaiff gyflawni hynny**
- **Penderfynu sut yw'r ffordd orau i wneud y newidiadau ddigwydd**

Mae hyn oll yn gofyn am nifer o bobl i feddwl, ysgrifennu a siarad, a dod ynghyd i gytuno ar y ffordd orau i symud ymlaen.

Ac rydych chi'n rhan o'r broses hon.



Y broses

YR HYN MAE DYSGWYR YN EI DDYSGU

Mae'r **Cwricwlwm**
a **threfniadau**
asesu yn cael eu
newid.

DEALL SUT MAE DISGYBLION YN DOD
YN EU BLAEN CYDA'U HADDYSG

Mae hyn yn golygu bod rhaid i
Lywodraeth Cymru **newid y**
gyfraith.

Cyn i hynny ddigwydd, mae rhywbeth
o'r enw Papur Gwyn yn cael ei
gyhoeddi sy'n egluro pam a sut
mae penderfyniadau wedi cael eu
gwneud a beth ddylid ei gynnwys yn
y cyfreithiau newydd.

**Dyma ble mae
angen eich help chi.**

Rydyn ni eisiau eich barn chi ar y
cynigion. Yna, gallwn ni gynnwys yr hyn
rydych chi'n ei ddweud wrthon ni wrth
inni ddrafftio'r cyfreithiau newydd, sydd
wedyn yn cael eu rhoi i wleidyddion er
mwyn gwneud y penderfyniad terfynol.

Mae 60 tudalen i'r Papur Gwyn a dros
21,000 o eiriau, ac oherwydd ein bod
ni'n gwybod eich bod chi'n brysur iawn,
rydyn ni wedi penderfynu cyhoeddi
rhywbeth byrrach hefyd, sef hwn:

**Byddai'n
wych cael
gwybod eich
barn chi.**

**Cenhadaeth ein
Cenedl: Cwricwlwm
Gweddnewidiol -
cynigion am fframwaith
deddfwriaethol newydd**

I'r rheini ohonoch chi sydd â llawer iawn o ddiddordeb, dyma gipolwg ar yr hyn sydd wedi digwydd hyd yn hyn (eithaf tipyn, a dweud y gwir).

Ers 2015 mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gydag ysgolion ac arbenigwyr i gynllunio'r **cwricwlwm newydd i Gymru**.

Y stori hyd yn hyn...

Yn 2015, ysgrifennodd yr Athro Donaldson adroddiad pwysig o'r enw Dyfodol Llwyddiannus gyda'r nod o ffurfio **dyfodol llwyddiannus a chyffrous** i blant a phobl ifanc Cymru.

Cafodd pawb gyfle i fynegi barn a syniadau yn y **Sgwrs Fawr**, a arweiniodd at:

Adroddiad mwy manwl o'r enw – Cwricwlwm i Gymru – cwricwlwm am oes (2015). Roedd hwn yn amlinellu'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni.

Gofynnwyd i ysgolion ledled Cymru i helpu datblygu'r cwricwlwm newydd a rhoi'r newidiadau ar brawf i weld a oedden nhw'n gweithio. Rhain yw ein **Ysgolion Arloesi**.



Cyhoeddodd yr OECD* gyngor gan arbenigwyr byd-eang yn ei Asesiad Cyflym Ynghylch Addysg yng Nghymru.

Cyhoeddwyd cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru – Addysg yng Nghymru – Cenhadaeth ein cenedl (2017).

* Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (The Organisation for Economic Cooperation and Development)

Mae hyn oll wedi arwain at y cam hwn – Cenhadaeth ein Cenedl: Cwricwlwm Gweddnewidiol – cynigion am fframwaith ddeddfwriaethol newydd



Mae'n rhaid:

- Cyhoeddi **Cwricwlwm Cymru er mwyn derbyn adborth** (Mis Ebrill 2019)
- Sefydlu cyfreithiau newydd (mae'r Papur Gwyn hwn yn paratoi ar eu cyfer, a dyma ble rydyn ni'n chwilio am fewnbwn oddi wrthoch chi)
- Cyflwyno'r newidiadau'n raddol o **fis Medi 2022** (gall ysgolion ddechrau paratoi am y newidiadau nawr. Mae nifer o ysgolion eisoes yn dysgu gydag egwyddorion y cwricwlwm newydd mewn golwg.)



Erbyn 2026 bydd pawb o 3 – 16 yn cael eu dysgu'r cwricwlwm newydd

Un o'r prif resymau rydyn ni'n gwneud hyn yw oherwydd bod y byd yn newid mor gyflym.

Mae eich athrawon chi (wel, y rhai hynaf, o leiaf) yn cofio bywyd cyn ffonau symudol, lawrlwytho digidol a chyfryngau cymdeithasol.

Yn ystod y cyfnod hwn, roedd ffeithiau a gwybodaeth yn dod o lyfrau, papurau newydd, a rhaglenni dogfen ar BBC2 gan amlaf.

Heddiw: mae addysg yn fwy eang, ac mae mwy o fwrlwm iddo.

Yn y gorffennol, roedd gan bobl lwybr gyrfa mwy caeth a bydden nhw'n aml yn gweithio i un cyflogwr drwy gydol eu bywydau, cyn ymddeol i dreulio mwy o amser yn eu gerddi.

Heddiw: dydyn ni ddim hyd yn oed yn gwybod pa swyddi fydd ar gael yn y dyfodol!


Dyna pam mae'r cwricwlwm newydd wedi cael ei gynllunio i helpu dysgwyr i **'addasu i fyd sy'n newid'**

A dweud y gwir, yr hyn ddywedon ni oedd, ein bod ni eisiau:

“ffurfio cynllun manwl cwricwlwm newydd sy'n adlewyrchu anghenion cenedlaethol a chymdeithasol ehangach yn well, gan gynnwys anghenion dysgwyr, cymunedau a'r economi”.

Sy'n golygu:

“Sicrhau bod y pethau mae dysgwyr yn eu dysgu yn yr amrywiol bynciau'n eu paratoi'n iawn ar gyfer eu bywyd a'u swydd(i) yn y dyfodol, sy'n well i ddysgwyr, yn well inni gyd, ac yn well i'r economi”.



**Barod i groesawu
cyfleoedd**

Gwybod beth
yw'r peryglon

SGILIAU NEWYDD

Deall byd sy'n newid

Entrepreneuraidd

Chwarae rhan yn y gymuned

Dysgu
sut i
ffynnu
mewn
byd
digidol

**Gallu gwneud
penderfyniadau da**

**EANG A
CHYTBWYS**

Mae gan athrawon fwy o ryddid
i benderfynu beth i'w ddysgu

Gwybodus

Pedwar Diben

CRYNODEB:

Rydyn ni eisiau sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei ddysgu a'i brofi yn yr ysgol yn paratoi dysgwyr at y dyfodol yn well.

Dyna'r rheswm dros y newidiadau.

Mae angen sylfaen gadarn iawn er mwyn creu'r newidiadau hynny, felly rydyn ni wedi meddwl am bedwar diben clir, sef ein **man cychwyn**.

Bydd y **Pedwar Diben** yn helpu dysgwyr i fod yn:

- **Uchelgeisiol a galluog**, sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes
- **Cyfranwyr mentrus a chreadigol**, sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith
- **Dinasyddion egwyddorol a gwybodus** yng Nghymru a'r byd
- **Iach a hyderus**, yn barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas

Meysydd Dysgu a Phrofiad

Mae ysgolion yng Nghymru yn dysgu amrywiaeth o bynciau sy'n gweddu i bob dawn.

Er mwyn i athrawon allu cynllunio gwersi'n well er mwyn helpu dysgwyr i gyflawni'r **Pedwar Diben**, rydyn ni'n meddwl bod angen mwy o hyblygrwydd arnyn nhw. Dyna pam rydyn ni'n cynnig chwe **Maes Dysgu a Phrofiad** (sy'n dipyn o lond ceg, felly rydyn ni am eu galw'n MDaPh).

Bydd plant a phobl ifanc yn dal i ddysgu'r pynciau maen nhw eisoes yn gyfarwydd â nhw, ond caiff y pynciau eu grwpio o dan y penawdau eang hyn:

- Celfyddydau mynegiannol
- Iechyd a lles
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, llythrennedd a chyfathrebu
- Mathemateg a rhifedd
- Gwyddoniaeth a thechnoleg

Fel arweiniad i athrawon, rydyn ni'n mynd i restru **prif agweddau dysgu** pob MDaPh, a'u galw'n **'yr hyn sy'n bwysig'**. Bydd y rhain fel llawlyfr, neu lyfryn cyfarwyddiadau. Mae'n rhaid i bob ysgol sicrhau ei bod yn defnyddio'r **'beth sy'n bwysig'** wrth gynllunio gwersi.

Felly mae prif agweddau dysgu i bob MDaPh, a bydd y canllawiau 'yr hyn sy'n bwysig' yn gymorth i athrawon, yn eu helpu nhw i gynllunio gwersi sy'n cyd-fynd ag anghenion dysgwyr fel y gallan nhw elwa o'r cwricwlwm llawn.


Mae'n bwysig bod y strwythur yn iawn, felly dyna pam y bydd y chwe MDaPh newydd hyn yn cael eu rhestru'n y ddeddfwriaeth newydd.



Cyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd

Mae tair sgil bwysig sy'n helpu dysgwyr i wneud yn well yn eu hastudiaethau, beth bynnag fo eu pynciau: **llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.**

Rydyn ni'n credu y dylid cefnogi dysgwyr cymaint â phosibl wrth ddatblygu'r sgiliau hyn fel y gallan nhw wneud yn dda yn yr ysgol, ac i sicrhau eu bod nhw'n barod am fywyd a gwaith yn y dyfodol, ac yn barod i chwarae rhan yn eu cymuned leol.



Maen nhw mor bwysig fel ein bod ni'n mynd i'w rhestru yn y ddeddfwriaeth newydd. Rydyn ni'n mynd i'w galw nhw'n gyfrifoldebau trawsgwricwlaidd* oherwydd dyma'r pethau sydd eu hangen ar ddysgwyr beth bynnag maen nhw'n ei astudio neu beth bynnag maen nhw'n ei wneud mewn bywyd. Ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod y sgiliau hyn ganddyn nhw.

*Llond ceg arall, felly mae'n haws cyfeirio atyn nhw fel CTau.

Rydyn ni hefyd yn awyddus i roi sgiliau ehangach i ddysgwyr, a byddwn ni'n mewnlunio rhain yn y MDaPh, sef: meddwl yn feirniadol a datrys problemau; cynllunio a threfnu; creadigrwydd ac arloesedd; ac effeithiolrwydd personol.



Hyblygrwydd ar gyfer athrawon

Mae'r gwersi sy'n cael eu dysgu mewn dosbarthiadau heddiw'n eithaf caeth, ac mae hynny'n golygu bod Mrs Jones yng Nghaernarfon yn dysgu'r un wers, fwy neu lai, â Mr Williams yn Llanbedr Pont Steffan, neu Ms McKenzie yn Abertawe.

Cofiwch, ein nod yw'r **Pedwar Diben**, ac rydyn ni'n meddwl bod gadael i ysgolion gael mwy o ryddid i benderfynu ar gynnwys gwersi a'r arddull o ddysgu'n ffordd well o wneud hynny.



Mae hyn yn golygu y bydd y Mrs Joneses, y Mr Williamses a'r Ms McKenzies, yn cael gwneud eu gwersi'n fwy perthnasol i'r lleoedd mae'r plant a'r bobl ifanc yn byw, gan alluogi dysgwyr i ddefnyddio newyddion a digwyddiadau lleol wrth ddysgu, a bod y gwersi'n cael eu llunio i weddu i'r dosbarth.

Bydd gan athrawon fwy o ryddid i ddysgu mewn ffyrdd maen nhw'n meddwl fydd yn cael y canlyniadau gorau ar gyfer eu dysgwyr.



Cwestiwn Ymgynghori:

Mae Cwricwlwm newydd Cymru wedi cael ei gynllunio i roi **hyblygrwydd** i athrawon ynghylch sut a beth maen nhw'n ei ddysgu, gyda'r nod o helpu dysgwyr i ddysgu. Beth ydy'ch barn chi am hyn?

Cynnydd a Phwyntiau cyfeirio

Ar hyn o bryd mae bywyd yn yr ysgol wedi ei rannu'n ddarnau, yn ôl oedran.

Maen nhw'n cael eu galw'n Gyfnodau Allweddol, ac maen nhw'n mynd o Gyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 4. Rydyn ni'n mynd i newid hynny fel bod y cwricwlwm newydd wedi cael ei drefnu fel **continwwm dysgu** o 3 i 16.

Mewn geiriau eraill, bydd dysgwyr yn mynd ar daith ddi-dor drwy gydol eu bywyd yn yr ysgol, heb yr un rhwystr ar y ffordd, a heb bwyslais caeth ar ddiwedd un cyfnod ac edrych yn ôl arno, ond yn hytrach bydd **pwyslais ar edrych ymlaen**.

Mae ein system yn adlewyrchu'r ffaith bod pawb yn datblygu ac yn dod yn eu blaenau ar raddfa wahanol, tra bo rhai'n dilyn llwybr gwahanol i gyrraedd cam nesaf eu haddysg.




Mae dal yn bwysig inni wybod sut mae dysgwyr yn dod yn eu blaenau ar hyd y ffordd. Bydd athrawon yn parhau i fonitro pa mor dda mae pethau'n mynd o hyd, ond bydd rhai oedrannau'n gofyn am olwg fanylach ar gynnydd, ac ar nodi pa gerrig milltir sydd wedi eu cyflawni. Bydd rhain yn cael eu galw'n Gamau Cynnydd, ac mae'n rhaid inni nodi rhain yn y cyfreithiau newydd.

Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ACRh

Gofynnwn ni i grŵp o arbenigwyr i gynnig syniadau ynghylch sut y dylai'r cwricwlwm newydd helpu gyda dysgu addysg rhyw, cytunon nhw mai'r peth pwysicaf i ganolbwyntio arno yw **cydberthynas**.

Bydd addysg rhyw'n cael ei enwi'n **Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb** (neu ACRh) a bydd yn **statudol** i ddysgwyr rhwng 3 ac 16 oed, sy'n golygu y bydd rhaid ei ddysgu i bawb (bydd rhaid cael y **cyfreithiau newydd** er mwyn gwneud hyn yn bosibl).

Bydd y pwnc yn fwy eang a dylai roi hyder i blant a phobl ifanc i drafod a deall pethau fel cam-drin yn y cartref, sut y gall profiadau plentyndod effeithio ar iechyd meddwl yn y dyfodol, yn ogystal â materion LHDTh*. Dydy'r pynciau hyn ddim yn gallu cael eu crynhoi'n daclus: maen nhw'n ymddangos mewn pynciau eraill hefyd, felly efallai y bydd dysgwyr yn eu darganfod mewn llenyddiaeth, hanes, neu ddaearyddiaeth.



*Lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol

Dyma ddau beth pwysig iawn i'w nodi:

1) Bydd ACRh wastad yn addas i ddatblygiad plentyn, ond caiff ei ddysgu mewn ffordd sy'n gweddu i ddatblygiad corfforol a meddyliol y dysgwr ar yr adeg honno (felly ni chaiff unrhyw un wybod pethau nad yw'n ddigon aeddfed i'w deall).

Rydyn ni'n meddwl y byddai athrawon yn gwerthfawrogi help hefyd, a dyna pam y byddan nhw'n cael cefnogaeth i roi'r addysg hon i ddysgwyr.

Yn olaf, gall y bobl ifanc sy'n dewis aros ymlaen i'r chweched dosbarth hefyd ddewis parhau ag ACRh, ond ni fydd yn orfodol, fel mae ar hyn o bryd.

Cydberthynas bositif

ble i gael cefnogaeth a chyngor

iach a
hyderus

profiadau personol

lles emosïynol

parch

datblygiad
y corff
dynol

ymddygiad

cyd-ymddiried

lles corfforol

dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol

Addysg Grefyddol

Rydyn ni hefyd yn cynnig gwneud **Addysg Grefyddol** yn statudol i ddysgwyr rhwng 3 a 16 oed, ond ddim yn orfodol i'r rhai sy'n aros i'r chweched dosbarth (er y gallan nhw **ddewis** AG). Rydyn ni'n gwneud hyn fel bod y **Meysydd Dysgu a Phrofiad** yn gweithio ym mhob pwnc ac yn yr ystod oedran llawn rhwng 3 a 16.

Ein cynllun yw ehangu AG, edrych ar gredoau crefyddol yn ogystal â chredoau digrefydd sy'n cymaradwy i gredoau crefyddol, fel y gall dysgwyr gael dealltwriaeth gytbwys ac addysg fwy cyflawn.

Fel ACRh, bydd rhaid cynnwys ehangu'r addysg i blant 3 oed a'i gwneud yn ddewisol i bobl ifanc 16 a hŷn yn y **cyfreithiau newydd**.



Cwestiwn Ymgynghori:

Beth yw eich barn am ein dull newydd o ddysgu ACRh ac AG, a sut ydych chi'n teimlo am wneud y ddau'n ddewisol i'r rhai sy'n y chweched dosbarth?



Datblygu parch a dealltwriaeth o wahanol ffurfiau o grefydd dros amser ac mewn gwahanol gymdeithasau.

Yr hawl i dynnu allan


Er amser maith, mae hawl gan rieni neu warcheidwaid i ofyn i'r plant neu'r bobl ifanc maen nhw'n gyfrifol amdanyn nhw gael eu hesgusodi o addysg ryw neu addysg grefyddol. Rydyn ni'n meddwl bod ACRh ac AG yn rhan bwysig o **Gwricwlwm newydd Cymru** a bod angen eu cynnwys er mwyn cyflawni'r **Pedwar Diben** yn llwyddiannus a rhoi addysg gytbwys a phrofiadau cyflawn i ddysgwyr. Efallai nad yw'r Hawl i Dynnu Allan yn cydfynd â'r uchelgais hwn.

Mae'n fater anodd. Rydyn ni'n teimlo bod angen moderneiddio'r trefniadau hyn, ond dydyn ni ddim yn siŵr sut i wneud hynny.

?

Cwestiwn Ymgynghori:

Hoffen ni i chi gael trafodaeth gyda'ch dosbarth, neu grŵp o ffrindiau, am hyn, a dweud wrthon ni a oes ffordd well, ac a ddylen ni gadw yr Hawl i Dynnu Allan, ei newid neu gael ei wared.



Cymraeg a Saesneg

Rydyn ni'n falch o'r ffaith bod Cymru'n genedl ddwyieithog ac un o'n hamcanion cenedlaethol mawr yw bod **miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050**.

Bydd Cymraeg a Saesneg yn dal i fod yn orfodol tan 16 oed. Rydwn ni'n mynd i stopio defnyddio'r term 'Cymraeg ail iaith' fel y gall pawb o bob ysgol – Cymraeg, dwyieithog neu Saesneg, elwa o'r un daith.

CYMRÆG

?

Cwestiwn Ymgynghori:

Ydych chi'n meddwl y bydd ein dull ni'n helpu dysgwyr i siarad Cymraeg erbyn iddyn nhw fod yn 16?

Ar hyd y daith Gymraeg drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol, bydd dysgwyr yn cyrraedd gwahanol gamau ar wahanol adegau, ond bydd y pwyslais i **bawb** ar **siarad a deall Cymraeg**, gyda'r nod y bydd **holl blant a phobl ifanc Cymru yn gallu defnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd** erbyn eu bod nhw'n 16.

Mae hwn yn newid cyfeiriad mawr i ni i gyd a bydd ysgolion a dysgwyr yn cael amser a chefnogaeth i addasu, yn enwedig ysgolion Saesneg.

Bydd Cymraeg a Saesneg yn ymddangos ar sail gyfartal yn y **deddfau newydd** i adlewyrchu bod gan Gymru ddwy iaith swyddogol.



Asesu a gwerthuso

Mae'n siŵr eich bod chi'n hen gyfarwydd ag asesiadau.

Gwir bwrpas asesu yw rhoi gwybodaeth i'r athro ar y ffordd orau i helpu datblygiad disgyblion wrth iddyn nhw ddysgu.


Wrth i ni newid y cwricwlwm i fod yn seiliedig ar y **Pedwar Diben**, cael gwared ar y cyfnod sylfaen a'r cyfnodau allweddol, a chyflwyno'r **Camau Cynnydd** newydd, rydyn ni'n meddwl ei bod hefyd yn amser newid y ffordd o **Asesu a Gwerthuso**.

Mae'r system 'Lefelau' bresennol yn cael ei newid, fel y gall cyrhaeddiadau dysgwyr gael eu hasesu mewn ffordd sy'n gweddu'n well i'n byd sy'n newid mor gyflym.

?

Cwestiwn Ymgynghori:

Beth ydych chi'n meddwl am newid y trefniadau asesu fel eu bod nhw'n ymwneud â'r dysgwr yn fwy?



Yn hytrach, bydd asesu'n seiliedig ar **Ddeilliannau Cyflawniad** ym mhob Cam Cynnydd, a bydd disgwyl i ysgolion barhau i annog dysgwyr yn eu blaenau, gan lunio'r hyn maen nhw'n ei ddysgu fel y gallan nhw fynd y filltir ychwanegol.

Mae'r system rydyn ni wedi cytuno arni'n canolbwyntio'n fwy ar **y dysgwyr**, a'u helpu **nhw** i ddeall:

- beth gallan nhw **ei wneud**,
- y pethau mae angen iddyn nhw **weithio arny'n nhw**,
- a'u **camau nesaf** nhw.

Bydd rheolaeth gan athrawon dros yr asesiadau fel y gallan nhw benderfynu beth mae disgyblion yn ei **ddysgu nesaf**, yn seiliedig ar **eu sefyllfa nhw nawr**.

Crynodeb

Diolch am eich amynedd! Mae llawer o wybodaeth yma, felly dyma grynodeb:



Rydyn ni eisiau sicrhau bod yr hyn mae plant a phobl ifanc yn ei ddysgu a'i brofi'n yr ysgol yn eu paratoi nhw'n well ar gyfer eu bywyd yn y dyfodol – eu gyrfa a'r rhan maen nhw'n ei chwarae'n eu cymuned leol.



Ein man cychwyn ni yw'r Pedwar Diben – helpu dysgwyr i fod yn uchelgeisiol ac abl, yn flaengar a chreadigol, yn egwyddorol a gwybodus, ac yn iach a hyderus.



Mae angen i'n system addysg ni i fod yn fwy rhwydd a hyblyg, felly rydyn ni'n mynd i aildrefnu pynciau i Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh).



Rydyn ni hefyd eisiau rhoi mwy o ryddid i athrawon yn y dosbarth ynghylch sut a beth maen nhw'n ei ddysgu (er, byddan nhw'n cael cymorth gan y canllawiau 'yr hyn sy'n bwysig').



Mae llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol mor bwysig, fel y byddan nhw'n ganolog i ddysgu, ac rydyn ni'n mynd i'w galw nhw'n Gyfrifoldebau Trawsgwricwlaidd (CT).



Bydd continwrm o ddysgu yn lle cyfnodau allweddol.



Bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn statudol hyd at 16 oed ac yn llawer mwy eang (gyda ffocws ar gydberthynas).



Bydd Addysg Grefyddol hefyd yn orfodol hyd at 16 oed, ac yn trafod gwahanol gredoau yn ogystal â safbwyntiau digrefydd.



Rydyn ni'n ystyried a ddylid newid neu ddileu'r Hawl i Dynnu Allan o Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb ac Addysg Grefyddol.



Bydd pawb yn dilyn yr un llwybr o ran y Gymraeg, fel y bydd holl blant a phobl ifanc Cymru'n gallu cynnal sgwrs yn Gymraeg. Fydd y term 'Cymraeg ail iaith' ddim yn cael ei ddefnyddio rhagor.

Rydyn ni'n gobeithio eich bod chi'n deall Papur Gwyn Diwygio'r Cwricwlwm ac Asesu yn well erbyn hyn ac rydyn ni'n awyddus iawn i glywed eich barn amdano.

Byddwch yn rhan ohono, os gwelwch yn dda.

Anfonwch eich syniadau unigol aton ni neu trafodwch gyda'ch ffrindiau ysgol.

Er bod nifer o'r newidiadau eisoes yn cael eu gwneud mewn un ffordd neu'i gilydd mewn nifer o ysgolion, fydd pob un o'r newidiadau ddim yn effeithio arnoch chi oherwydd efallai y byddwch chi wedi gadael yr ysgol cyn i'r newidiadau orffen cael eu rhoi ar waith, ond wrth rannu eich barn gyda ni, byddwch chi'n ffurfio dyfodol y rhai sy'n dod ar eich ôl chi.

Gobeithio bod digon o wybodaeth yma i chi, ond os oes angen rhagor o fanylion arnoch chi, gallwch chi ddarllen y Papur Gwyn cyfan drwy fynd i wefan Llywodraeth Cymru <https://beta.llyw.cymru/cenhadaeth-ein-cenedl-cwricwlwm-trawsnewidiol>



Dylid ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu hanfon drwy ebost neu drwy'r post erbyn 25 o Fawrth 2019 i'r cyfeiriad isod.

E-bost:

DeddfwriaethDiwygiorCwricwlwm@llyw.cymru

Drwy'r post:

Cangen Deddfwriaeth Diwygiad y Cwricwlwm

Is-Adran y Cwricwlwm ac Asesu

Cyfarwyddiaeth Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

❓ Cwestiwn Ymgynghori:

Mae Cwricwlwm newydd Cymru wedi cael ei gynllunio i roi **hyblygrwydd** i athrawon ynghylch sut a beth maen nhw'n ei ddysgu, gyda'r nod o helpu dysgwyr i ddysgu. Beth ydy'ch barn chi am hyn?

❓ Cwestiwn Ymgynghori:

Beth yw eich barn am ein dull newydd o ddysgu ACRh ac AG, a sut ydych chi'n teimlo am wneud y ddau'n ddewisol i'r rhai sy'n y chweched dosbarth?

? Cwestiwn Ymgynghori:

Hoffen ni i chi gael trafodaeth gyda'ch dosbarth, neu grŵp o ffrindiau, am hyn, a dweud wrthon ni a oes ffordd well, ac a ddylen ni gadw yr Hawl i Dynnu Allan, ei newid neu gael ei wared.

? Cwestiwn Ymgynghori:

Ydych chi'n meddwl y bydd ein dull ni'n helpu dysgwyr i siarad Cymraeg erbyn iddyn nhw fod yn 16?

Cwestiwn Ymgynghori:

Beth ydych chi'n meddwl am newid y trefniadau asesu fel eu bod nhw'n ymwneud â'r dysgwr yn fwy?

Nid oes angen i chi rannu â ni unrhyw wybodaeth a fydd yn eich adnabod yn eich ymateb. Ni fyddwn yn cadw unrhyw wybodaeth amdanoch yr ydych yn ei rannu'n ddamweiniol wrth ymateb (er enghraifft, eich cyfeiriad e-bost). Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallech nodi eich grŵp oedran trwy dicio un o'r blychau canlynol:

- 10 mlwydd oed neu iau
- 11-13 mlwydd oed
- 14-16 mlwydd oed
- 17-19 mlwydd oed
- 20+ mlwydd oed

Gweler y dudalen nesaf am wybodaeth ar sut y bydd ymatebion yn cael eu defnyddio

Sut bydd ymatebion yn cael eu defnyddio

Llywodraeth Cymru fydd yn rheoli unrhyw wybodaeth a roddwch inni wrth ymwneud â'r ymgynghoriad. Bydd Gweinidogion Cymru yn defnyddio'u pwerau i benderfynu sut i gymryd eich gwybodaeth a'i defnyddio i wneud eu gwaith.

Bydd staff Llywodraeth Cymru yn gweld sut rydych wedi ymateb i'r cwestiynau yn yr ymgynghoriad. Os bydd Llywodraeth Cymru yn edrych yn fanylach ar yr ymgynghoriad, efallai y bydd yn gofyn i sefydliadau eraill ddefnyddio'r wybodaeth, ond os gwnaiff Llywodraeth Cymru hyn, byddwn yn gwneud yn siŵr fod y sefydliadau hyn yn cadw gwybodaeth yn ddiogel.

I ddangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu adroddiad yn dangos rhai o'r sylwadau a wnaeth pobl.

Dylech wybod hefyd fod modd i bobl ofyn i ni am wybodaeth (y ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth).

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data mae gennych hawl i'r canlynol:

- cael gwybod am y data personol a ddelir amdanoch a chael mynediad ato
- cael cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hwnnw
- cael dweud (o dan rai amgylchiadau) nad ydych am inni ddefnyddio'r cyfan neu ran o'ch data personol
- cael eich data wedi'i ddileu (o dan rai amgylchiadau)
- cael eich data wedi'i symud (o dan rai amgylchiadau)
- gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

I gael manylion pellach am y wybodaeth a ddelir gan Lywodraeth Cymru a'r defnydd a wneir ohoni, cysylltwch â:

Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: YmholiadauDiogeluData@llyw.cymru